Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 2 Mai 2017 am 6.00yh yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 2 May 2017 at 6.00pm at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/*Present*—**Y Cynghorwyr**/Councillors Clive Davies *(***yn y gadair***/in the chair),* John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Ken Edwards, Graham Evans, Gwynfi Jenkins, Richard Jones, Catrin Miles, Jane Roche.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.
The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Clive Davies, bawb i'w gyfarfod olaf yn y swydd. Diolchodd i'w gyd-gynghorwyr a'r clerc am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn, a dymunodd y gorau i'w olynydd, y Maer Etholedig, y Cyng. Richard Jones. Dymunodd y gorau i'r cynghorwyr oedd yn sefyll etholiad ddydd Iau, 4 Mai, a hefyd diolchodd yn arbennig i'r Cyng. Gwynfi Jenkins oedd yn ymddiswyddo yn dilyn dros ddeugain mlynedd fel cynghorydd yn y dref; bu hefyd yn gwasanaethu fel Maer am bedwar tymor. Yr un oedd y diolch gwresog i Mrs Marian Jenkins a fu'n Faeres Tref Aberteifi bedair gwaith gan gefnogi'r Cyng. Jenkins ym mhob agwedd o'r swydd. Dymunwyd adferiad iechyd i'r Cyng. Melfydd George oedd wedi ei gludo i'r ysbyty heddiw ar ddydd olaf ei ddyletswyddau fel cynghorydd o Gyngor Tref Aberteifi; bu ef hefyd yn Faer y Dref yn ei dro.
Llongyfarchodd y Maer gadeirydd Sioe Dydd Sadwrn Barlys Aberteifi, y Cyng. Graham Evans, ar lwyddiant y dydd; bu'r digwyddiad yn llwyddiannus dros ben gyda Hywel Davies, y cyn-joci, yn llywydd y dydd. Treialwyd system di-wifr canol y dref am y tro cyntaf ar ddydd y Sioe a chafwyd adroddiad diddorol o niferoedd oedd yn bresennol yng nghanol y dref ar y dydd gan y Maer.

The Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed everyone to his final meeting as chairperson. He thanked his fellow councillors and the clerk for their support throughout the year, and wished his successor, the Mayor-Elect, Cllr Richard Jones, an enjoyable term in office. He wished all the councillors contesting the elections on 4 May the best of fortune. Special felicitations were offered to Cllr Gwynfi Jenkins who had decided to retire after forty years' service as town councillor which included four terms as Mayor. In the same vein, Mrs Marian Jenkins was thanked for being a most able Mayoress to Cllr Jenkins during his mayoralty years. Cllr Melfydd George, on the day of his final meeting, was unfortunately admitted to hospital for treatment; he was wished a speedy recovery. Cllr George had also served as Mayor of Cardigan.
The Mayor congratulated the chairman of Cardigan Barley Saturday Show, Cllr Graham Evans, on its success again this year; the occasion was blessed with excellent weather; the past Grand National winning jockey Hywel Davies served as President of the day. The new innovative Cardigan wi-fi system was trialled on the day of the show and the Mayor produced interesting statistics of people present in the town centre.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyngh. / Cllrs Akira Shimazaki *(gwyliau/vacation),* Melfydd George *(anhwyldeb/unwell)*

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	*Yr holl faterion cynllunio* / All planning matters.

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 4 Ebrill
Confirmation of Minutes of 4 April Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Jones bod y cofnodion yn gywir.
Cllr Dai Brabrook proposed that the minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr. Richard Jones.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 1234, eitem 12 (*Cwpwrdd Ystafell Radley*): Mae'r Cyng. Melfydd George wedi trosglwyddo dwy eitem a dderbyniwyd yn ystod ei faeroliaeth i'w gosod yn y cwpwrdd.
Page 1234, item 12 (*Ystafell Radley cupboard*): Cllr Melfydd George has presented two items received during his mayoral year to be housed in the cupboard.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.
Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd dyddiadur y Maer i'r holl aelodau yn y cyfarfod.
The Mayor's diary was distributed to all members at the meeting.

7. Cynllunio / Planning

Rhif y Cais / App. No.	*Cyfeiriad /* Address	*Y Bwriad /* Proposal	*Sylwadau* / Comments
A170333	5 Pendre	*Newid defnydd o A1 i ddefnydd manwerthu cymysg o fewn A1/A2/A3 (heb gynnwys prydau parod poeth), blaen siop newydd ac estyniad cefn unllawr newydd.* Change of use from A1 to mixed retail use within A1/A2/A3 (excluding hot food takeaway), replacement shop front and new single storey rear extension.	*Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.* The council supports the application.

8. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	*Disgrifiad / Description*	*Côd / Code*	*Rhif y Siec Cheque No.*	*Swm (TAW) / Sum (VAT)*
27/3/17	Siemens: *Prydles y llungopïwr* / Lease of photocopier	A17	D/D	£150.00 (25.00)
30/4/17	Tai Aberteifi Ltd.: *Rhent Swyddfa'r Cyngor*/ Rent of Council Office (*Ebrill / April)*.	A9	D/D	£250.00 (0.00)
	Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (4, 18, 20 *Ebrill* / April*)*	A9	4398	£75.00 (0.00)
	Band Lydan (Mai) / Broadband (May)	A20	4398	£20.00 (0.00)
30/4/17	L. W. Jones*: Cyflog y Clerc /* Clerk's Salary (*Ebrill / April*)	A3	4399	£756.36 (0.00)
11/4/17	Thomas Fattorini Ltd.: 5 *Medal* / Insignias (*Cyn-Faer*)	B5	4400	£878.75 (146.46)
25/4/17	David Evans & Sons: *Anrheg ac ysgythru.* Royal Doulton Bowl and engraving.	B5	4401	£62.10 (10.35)
30/4/17	Llinos Jones: *Cyfieithu ar y pryd*. Simultaneous translation (4/4/17)	A18	4402	£63.30 (0.00)
30/4/17	*Bachan Deche* / Handyperson: (*Ebrill / April*)	A19	4403	£283.80 (47.30)

Cynigiodd y Cyng. John Adams-Lewis bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.
Cllr John Adams-Lewis proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Dai Brabrook.

Cytunwyd bod yr Is-bwyllgor Regalia a Gweithgareddau Dinesig yn trafod ffyrdd i arbed cost chwyddedig y medalau gyflwynwyd i'r Cyn-Feiri.
It was agreed that the Regalia and Civic Functions Sub-committee discusses the inflated costs of the Past Mayor's insignias.

***Derbyniadau/*Receipts:**
Cronfa'r Maer:

10/4/17	*Elw Bore Coffi (1 Ebrill)* / Proceeds of Coffee Morning (1 April)	£376.50
21/4/17	Cronfa'r Maer (D2), Mayor's Fund (D2)	£1,000.00
2/5/17	Mr a Mrs Gareth James, Stepside	£60.00

9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

(i) Pwll Nofio Aberteifi: Dywedodd y Cyng. Miles bod ceisiadau am staff newydd ar y gweill a bod y paneli haul i'w gosod yn fuan. Cytunwyd bod cais yn cael ei wneud am ddatganiad o'r sefyllfa diweddaraf oddi wrth yr ymddiriedolwyr a'r rheolwr busnes rhan-amser. Roedd y cyngor yn unfrydol gyda'i gefnogaeth am ddyfodol llwyddiannus i'r Pwll Nofio.

(ii) Cynhelir arddangosfa yn Theatr Byd Bychan gyda chymorth cwmni Kinora ar broblemau iechyd meddwl ddydd Mercher, 3 Mai am 4.00yp.

(a) Cllr Catrin Miles:

(i) Cardigan Swimming Pool: Cllr Miles reported that applications were afoot for appointing new staff members, and that the sun panels were scheduled to be installed soon. It was agreed that an update be requested from the trustees and the part-time business manager. The council was unanimous in its support for the future success of the swimming pool.

(ii) An exhibition on mental health issues will be held at the Small World Theatre under the auspices of Kinora on Wednesday, 3 May at 4.00pm.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	Llythyron i'w nodi / i'w darllen *Letters to be noted / read*	*Sylwadau / Comments*
28	CSC / CCC (Bronwen Morgan*):* *Etholiadau Lleol 4/5/17: Hysbysiadau Cyhoeddus /* Public Notices. Local Elections 4/5/17.	*Mae'r posteri wedi eu harddangos mewn mannau cyhoeddus yn y dref.* Posters have been displayed in various public locations.
29	CSC / CCC (Gari Jones*): Cadarnhad bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cais i'r Gronfa Drafnidiaeth Leol am ragor o welliannau Teithio Llesol yn Aberteifi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18.* Confirmation that the Welsh Government has approved the Local Transport Fund bid for further Active Travel Improvements in Cardigan for the financial year 2017-18.	*Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.* Copy forwarded to members 11/4/17. *Mae Cyngor Tref Aberteifi wedi cymeradwyo £5,000 o gronfa gyfatebol.* Cardigan Town Council has approved match funding of £5,000.
30	CSC / CCC (*Gwasanaethau Cyllid*/Financial Services): *Manylion taliad dwy ran o dair o Braesept* 2017-18. Remittance advice of two-thirds of 2017-18 Precept = £55,996.98.	*Nodwyd.* Noted.
31	CSC / CCC (Bronwen Morgan): *Etholiadau Llywodraeth Leol 2017 (Cynghorau Tref a Chymuned):* *Sylwer ar y dogfennau canlynol: Datganiad derbyn swydd / Ymrwymo i gydymffurfio â'r Côd; Côd Ymddygiad; Cofnodi datganiadau o fuddiant; Gollyngiadau.* Local Government Elections 2017 – Town and Community Councils. Please note the following documents: Declaration of Acceptance of Office / Undertaking to comply with the Code; Code of Conduct; Recording disclosure of interest; Dispensations.	*Camau y mae'n rhaid i'r cyngor newydd eu cymryd yn dilyn etholiadau 2017 er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd).* Steps the newly constituted council must take following the 2017 elections in order to meet the requirements of the Local Government Act 2000 (as amended).
32	*Llywodraeth Cymru: Cadarnhad o dderbyn sylwadau Cyngor Tref Aberteifi ar Adolygiad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.* Acknowledgement of the town council's observations regarding the Review of the Electoral Arrangements for the County of Ceredigion.	*Nodwyd.* Noted.
33	RoSPA Play Safety Team: *Cadarnhad o fwriad y cwmni i archwilio'r meysydd chwarae am 2017.* Confirmation of the company's intention to inspect the play areas for 2017.	*Nodwyd.* Noted.
34	Cymru i Bawb: "*Cytgord nid Casineb* – Harmony not Hate"	*Mae'r posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfwrdd.* The posters have been displayed in the notice board.
35	Teifi (Hall Stone) Lodge No. 4648: *Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres.* Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Ladies Evening at the Cliff Hotel on 13/5/17.	*Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.* The invitation has been forwarded to the Mayor.

36	*Heddlu Dyfed-Powys Police: Gwybodaeth bod Stephen Davies wedi cychwyn ei swydd fel Prif Arolygydd Gweithredol Ceredigion.* Information that Stephen Davies has commenced his duties as the Operational Chief Inspector for Ceredigion.	*Manylion cyswllt /* Contact details: stephen.davies@dyfed-powys.pnn.police.uk. *Cytunwyd gwahodd Mr Davies i gyfarch y cyngor i'r dyfodol.* It was agreed to invite the OCI to address the council at a future date.
37	Menter Aberteifi: *Cadarnhad bod y cwmni yn bwriadu gosod cyfleustra i osod cotiau yn Ystafell Radley.* Confirmation that the company is proposing to place a coat stand in the corner of Ystafell Radley during coffee mornings.	*Nodwyd.* Noted.
38	Swyddfa Archwilio Cymru: *Gwybodaeth am ffioedd archwilio a materion eraill sy'n ymwneud ag archwiliad 2015-16.* Wales Audit Office: Audit fees and other matters relating to the 2015-16 audit.	*Nodwyd.* Noted.
39	*Archwilydd Cyffredinol Cymru: Hysbysiad o bennu dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwr.* Audit General for Wales: Notice of Appointment of Date for the Exercise of elector's rights	*Mae'r hysybysiad wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd ar 20 Ebrill.* The notice has been displayed on the notice board on 20 April: Dates of inspection 4-25 May 2017.
40	Eluned Morgan AC/AM: *Manylion cyswllt* / Contact details	*Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.* The poster has been displayed in the notice board.
41	*Castell Aberteifi: Cais i ymestyn yr arddangosfa o asedau gwerthfawr y cyngor.* Cardigan Castle: Application to extend the display of the council's valuable assets at the Castle. A copy of the insurance document is also enclosed.	*Cytunodd y cyngor dderbyn y cais i arddangos yr asedau hyd ddiwedd yr haf.* Council agreed to the request to display the assets until the end of the summer season. Proposed by Cllr Richard Jones; seconded by Cllr Jane Roche. The above will be validated on condition that an updated copy of the insurance schedule will be produced.
42	Cadwgan (Mrs Sue Lewis): *Cais am grant tuag at flodau i Ardd Brioude*. Application for funding towards the Brioude Garden flower display.	*Cytunodd y Cyng. Catrin Miles ymchwilio i mewn i anghenion yr ardd o safbwynt y Pwyllgor Gefeillio.* Cllr Catrin Miles agreed to seek further information regarding the requirements of the Twinning Committee. Cllr Richard Jones suggested that the Bee Association had offers of flower planting, and agreed to pursue the idea.
43	*Clwb Pêl-rwyd Aberteifi /* Cardigan Ladies Netball Club: *Cais am gymorth ariannol* / Application for financial aid.	*I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi.* To be discussed at the September Grants sub-committee.

Bronwen Morgan: *Prif Weithredwr.* Chief Executive.
Gari Jones: *Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth* / Assistant Engineer Transport Strategy
Stephen Johnson: *Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol* / Head of Financial Service

11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 18 Ebrill.

Confirmation of 18 April Sub-committee Minutes.

Cynigiodd y Cyng. Graham Evans bod cofnodion 18 Ebrill yn rhai cywir; eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.

Cllr Graham Evans proposed that the minutes of 18 April be accepted as correct; seconded by Cllr Dai Brabrook.

Materion yn codi / Matters arising

Tud. 1235: Oherwydd amgylchiadau personol nid oedd Mr Jon Hadlow ar gael i drefnu cyfarfod i drafod materion cynnal a chadw Gardd Victoria ar ddyddiad oedd yn addas i'r Bachan Deche. Yn dilyn trafodaeth ar 2 Mai, dywedodd y clerc y byddai Mr Hadlow yn trefnu cyfarfod yn ystod yr wythnos sydd yn dechrau 15 Mai.

Page 1235: Due to personal circumstances, Mr Jon Hadlow was unable to organise a suitable date to discuss the Victoria Gardens flower and plant issue with the Handyperson. Following a discussion with the clerk on 2 May, Mr Hadlow agreed to contact the council and organise a meeting during the week commencing 15 May.

12. Personél / Personnel.

13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.
Any Other Business at the Mayor's discretion.

(a) **Cwyn gan Miss Gwen Evans, Fflat 1 Glenmore, Feidrfair, ynglŷn â'r llanast a'r chwyn sydd yn tyfu o amgylch y fainc gyferbyn i'w chartref.**

Complaint received from Miss Gwen Evans, Flat 1 Glenmore, Feidrfair, regarding the weeds and rubbish deposited around the bench opposite to her home.
Cytunwyd gwneud ymholiadau ynglŷn â pherchenogaeth y fainc a'r tir.

It was agreed to seek information regarding the ownership of the bench and land.

(b) **Cynigiodd y Cyng. Dai Brabrook bod y cyngor yn cydnabod gwasanaeth y Cyng. Clive Davies a'r Faeres, Mrs Myra Davies, dros y flwyddyn ddiwethaf. Roeddynt wedi gwasanaethu'r dref a'r ardal gydag urddas. Ategodd y Cyng. Catrin Miles bod y Cyng. Brabrook a'r Cyng. Jane Roche wedi gwasanaethu'r cyngor gyda brwdfrydedd a ffyddlondeb; gwelir eu heisiau yn fawr iawn. Yn yr un modd, dymunwyd y gorau i'r Cynghorwyr Gwynfi Jenkins a Melfydd George gan y Cyng. Adams-Lewis a diolchodd iddynt am eu hymroddiad fel aelodau teyrngar dros flynyddoedd – sef dros ddeugain mlynedd yn achos y Cyng. Jenkins.**

Cllr Dai Brabrook thanked the Mayor, Cllr Clive Davies, and the Mayoress, Mrs Myra Davies, for their excellent year in office; much had been attained during the term and both served with enthusiasm and dignity. Cllr Catrin Miles thanked Cllr Brabrook and Cllr Jane Roche for their exemplary service as councillors; both will be truly missed. Cllr Adams-Lewis wished to record the gratitude of the council to Cllr Gwynfi Jenkins and Melfydd George for their dedication as members of Cardigan Town Council for many years – with Cllr Jenkins serving for over 40 years.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.02yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.02pm.

*Arwyddwyd/*Signed ..... *(Cadeirydd/*Chairperson) *Dyddiad/*Date .....